OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 66

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2021

## RHAN 3

## Diwygiadau i'r Rheoliadau Cyfyngiadau

**Diwygiadau i'r Rheoliadau Cyfyngiadau**

**4.**—(1) Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 11A—

(a) yn lle'r pennawd rhodder—

*"Gofyniad i ynysu: darpariaeth benodol ar gyfer pobl sydd yng Nghymru ar 22 Ionawr 2021 ac sydd wedi bod yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo neu Weriniaeth Unedig Tanzania yn y 10 niwrnod blaenorol";*

(b) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "9 Ionawr" rhodder "22 Ionawr";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "9 Ionawr" rhodder "22 Ionawr";

(iii) yn is-baragraff (c), yn lle "mewn gwlad restredig" rhodder "yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo neu Weriniaeth Unedig Tanzania";

(c) ym mharagraff 2, yn lle "mewn gwlad restredig" rhodder "yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo neu Weriniaeth Unedig Tanzania";

(d) hepgorer paragraff (4).